**P-06-1317 Cydnabod pwysigrwydd Cynorthwywyr Addysgu fel asedau pwysig i ysgolion drwy godi eu cyflog**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Caroline Hugill, ar ôl casglu 1,405 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae Cynorthwywyr Addysgu yn rhan hynod bwysig o'r gwaith o redeg ysgolion yng Nghymru, ond nid yw ein Llywodraeth yn cydnabod hynny ar hyn o bryd, o gofio faint y mae'r staff hyn yn cael eu talu.

**Gwybodaeth ychwanegol**:
Heb Gynorthwywyr Addysgu, ni fyddai ysgolion yn gallu darparu ar gyfer y nifer uchel o fyfyrwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig. Maent yn gweithio'n galed, ac mae'r cyflog isel y maent yn ei gael am y gwaith hwn yn enghraifft o gamwahaniaethu. Mae rôl Cynorthwywyr Addysgu yn anodd, ac mae'r pwysau gwaith arnynt ar hyn o bryd yn aruthrol. Mae'r dyletswyddau yn cynnwys cefnogi myfyrwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig (yn aml ar sail un i un), addysgu grwpiau o blant ac weithiau dosbarthiadau cyfan os bydd athro'n absennol, cynllunio gwersi, trefnu gweithgareddau allgyrsiol a sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial – ond nid yw eu gwaith yn gyfyngedig i'r dyletswyddau hynny. Yn anffodus, oherwydd bod y cyflog mor isel, nid yw llawer o Gynorthwywyr Addysgu yn gallu fforddio aros yn y swydd, ac mae nifer fawr o staff profiadol yn cael eu gorfodi i chwilio am swyddi eraill. Mae'n rhaid i hyn newid.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ynys Môn
- Gogledd Cymru